
Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol

# Cyfriflenni Banc

## Beth mae ei angen arnom gennych chi?

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

Mae angen i chi gynnwys cyfriflen banc wedi'i dyddio o fewn **y tri mis diwethaf** gyda'ch cais fel y gallwn gadarnhau'ch gwybodaeth gyfrif, os bydd eich cais yn llwyddiannus




- Dylai'r gyfriflen banc fod wedi'i dyddio o fewn **y tri mis diwethaf.**
- Mae'n rhaid cynnwys enw neu logo'r banc.
- Mae'n rhaid mai'r enw ar y gyfriflen banc yw **enw cyfreithiol eich mudiad**, ac mae'n rhaid iddo gyfateb i'r enw ar eich cais. Dylai'r gyfriflen gynnwys y **cyfeiriad yr anfonir y cyfriflenni iddo.**
- Mae angen i'r gyfriflen a anfonwch ddangos y rhif **cyfrif a'r côd didoli yn glir.**

Os oes gennych gyfrif banc a agorwyd o fewn y tri mis diwethaf, gallwn dderbyn y llythyr croeso gan y banc yn lle cyfriflen banc. Mae'n rhaid i'r llythyr gadarnhau dyddiad agor y cyfrif a holl fanylion y cyfrif.

**Cyfriflenni ar-lein**
Gan nad yw cyfriflenni ar-lein yn aml yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom, dylai ymgeiswyr ofyn am gyfriflen lawn gan eu banc.

**Cyfeiriad y mudiad yn wahanol i'r cyfeiriad ar y gyfriflen banc**
Rydym yn disgwyl bod y cyfeiriad ar y gyfriflen yn cyfateb i'r mudiad, er hynny rydym yn cydnabod y gallai fod cyfiawnhad dros anfon cyfriflenni i gyfeiriad arall fel y trysorydd neu'r person cyswllt sy'n gyfreithiol gyfrifol.

**Beth na allwn ei dderbyn;**
- Rhestrau trafodion
- Cyfriflenni sydd ag enw'r mudiad wedi'i dalfyrru
- Cyfriflenni banc yn enw dau neu fwy o unigolion yn masnachu fel mudiad sydd ag enw